

Adroddiad
Argymhellion
Pwyllgor Coffa'r
Frenhines Elizabeth



Cynnwys

Rhagair 3

Crynodeb Gweithredol 4

Cyflwyniad 6

Aelodau Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth 7

Egwyddorion Arweiniol 7

Ymagwedd at ein gwaith 8

Argymhellion 9

Cyflwyniad 10

Cofeb Genedlaethol ym Mharc Iago Sant 10

Rhaglen Etifeddiaeth 13

Cofeb Ddigidol 15

Casgliadau 16

Ôl-nodiadau 18

Atodiad A: Cydnabyddiaethau 19

Atodiad B: Cylch Gorchwyl y Pwyllgor 20

Atodiad C: Aelodau'r Pwyllgor 28







© Royal Collection Enterprises Ltd 2026 | Royal Collection Trust

Adroddiad Argymhellion Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth



Rhagair

Wrth gyflwyno'r argymhellion hyn ar ran Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth, rwy'n ymwybodol iawn o'r her a osodwyd gennym i'n hunain ar ddechrau 2024. Ein tasg fu ceisio cyfleu rhywbeth o rôl y diweddar Frenhines a'r hyn a olygai hi i gynifer ohonom drwy gydol ei theyrnasiad hir – ei hymdeimlad o ddyletswydd a gwasanaeth, ynghyd â'i chysondeb, ei ffydd, ei hoptimistiaeth a'i hiwmor.

Yn ystod ein hymweliadau ledled y wlad, fe'n trawyd gan yr hoffter personol wrth gofio amdani. Roedd pobl yn siarad am "ein" Brenhines, fel rhan o'u bywydau eu hunain, yn bresenoldeb cysurlon mewn cyfnodau o newid. Cawsom ein hatgoffa nad oedd hi'n un am oferedd, afradlondeb na sioe, ond yn rhywun a oedd yn esiampl dawel o synnwyr cyffredin a phenderfyniad i gyfrannu at les y cyhoedd.

Ein nod fu dod o hyd i deyrnged mor eithriadol â'r bywyd yr ydym yn ei ddathlu.

Rydym yn argymhell tri chynnig. Mae'r rhain wedi'u hanelu, yn anad dim, at sicrhau budd i'r cyhoedd, yn ogystal â bod yn gofeb addas i fywyd a gwerthoedd y Frenhines Elizabeth ac i'n hoes ni.

Yn Llundain, rydym yn cynnig cofeb ffisegol gyda'i cherflun ar y Mall, ynghyd â gwelliant sylweddol i Barc godidog Iago Sant drwy greu llwybrau a gerddi newydd, a phont newydd y mae mawr ei hangen. Er mwyn sicrhau budd ledled y Deyrnas Unedig, rydym yn cynnig Ymddiriedolaeth elusennol newydd i gefnogi prosiectau lleol, gan gydnabod y pwysigrwydd a roddai'r diweddar Frenhines ar gryfhau cymunedau. Yn ehangach, rydym yn cynnig Cofeb Ddigidol i gasglu atgofion pobl am y diweddar Frenhines, y credwn y byddant o ddiddordeb i genedlaethau'r dyfodol.

Rhoddodd y Frenhines Elizabeth werthoedd i ni ac ymdeimlad o barhad yr oeddem, efallai, yn ei gymryd yn ganiataol nes iddynt ddiflannu. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio bod ein cynigion yn cynnig cofeb deilwng o'i bywyd o wasanaeth a theyrnged sy'n dathlu ei chof drwy barhau i fod o fudd i ni i gyd: pobl y Deyrnas Unedig a'r Gymanwlad y cysegrodd hi ei bywyd iddynt.

Rhaid i mi fynegi fy niolch i'm cyd-aelodau o'r Pwyllgor am eu doethineb a'u hymrwymiad difflino i'r prosiect hwn, ac i Ysgrifenyddiaeth Swyddfa'r Cabinet am y gefnogaeth broffesiynol ragorol a roesant drwyddi draw. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r llu o bobl a roddodd eu hamser a'u syniadau mor hael ar hyd y ffordd; bu eu cyngor yn allweddol wrth lunio'r argymhellion hyn.

Yr Arglwydd Janvrin GCB GCVO QSO PC

Yn dilyn ei benodi ym mis
Chwefror 2024, cafodd
Pwyllgor Coffa'r Frenhines
Elizabeth y dasg gan Lywodraeth
Ei Fawrhydi a'r Aelwyd Frenhinol
o gynghori ar gofebion
cenedlaethol priodol i nodi
teyrnasiad eithriadol
o 70 mlynedd a bywyd
o wasanaeth cyhoeddus
Brenhines Elizabeth II.

Yn dilyn ymchwil helaeth ac
ymgysylltu eang â chymunedau
ledled cenhedloedd y Deyrnas
Unedig, mae'r Pwyllgor yn
cyflwyno ein cynigion terfynol.

Fel pwyllgor, arweiniwyd ein gwaith gan yr uchelgais i ddathlu cyfraniad eithriadol y Frenhines at fywyd cenedlaethol, sicrhau buddion diriaethol i'r cyhoedd, a sicrhau bod ei hetifeddiaeth yn cael ei chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi datblygu tri argymhelliad cyflenwol:

1. Cofeb genedlaethol ym Mharc Iago Sant. Bydd yr etifeddiaeth barhaol hon, a ddyluniwyd gan Foster + Partners, yn cynnwys cerfluniau ffurfiol o'r Frenhines a'r Tywysog Philip gan Martin Jennings, yn eu dangos yn gynnar yn ei theyrnasiad, penddelw arall o'r Frenhines yn ei blynyddoedd diweddarach gan Karen Newman MRSS, a cherflun sy'n ymwneud â'r Gymanwlad gan Yinka Shonibare CBE RA. Yn ganolog i'r gofeb bydd pont newydd ehangach, wedi'i hysbrydoli gan Tiara Frinj y Frenhines Mary, a wisgwyd gan y ddiweddar Frenhines ar ddiwrnod ei phriodas, ynghyd â gerddi sy'n talu teyrnged i'w pherthynas â chenhedloedd y Deyrnas Unedig a'r Gymanwlad.
2. Sefydlu Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth i gyflawni rhaglen gymunedol genedlaethol. Gyda gwaddol o £40 miliwn gan y llywodraeth, wedi'i ategu gan ragor o godi arian, bydd y fenter hon yn darparu grantiau i adfywio mannau cymunedol a rennir ledled y DU, gan adlewyrchu ymroddiad y Frenhines i wasanaeth cyhoeddus a chysylltiad cymunedol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n dod â phobl leol ynghyd, gan fynd i'r afael â'r angen am gymorth hirdymor i adeiladau cymdogaeth a mannau gwyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn.
3. Cofeb ddigidol a fydd yn creu map o atgofion i ddathlu bywyd ac etifeddiaeth y brenhines a deyrnasodd hiraf ym Mhrydain, gan wahodd pobl ledled y Deyrnas Unedig, y Gymanwlad a gweddill y byd i anfon eu hatgofion am y Frenhines Elizabeth atom. Wedi'i gysylltu â'r Court Circular, sef cofnod dyddiol o fywyd swyddogol y Frenhines, bydd y platfform hwn yn galluogi pobl i gofnodi a rhannu eu hatgofion personol o'r Frenhines, ochr yn ochr â deunydd archif unigryw o gasgliadau cenedlaethol, gan ddiogelu'r effaith a gafodd ar y rhai y cyfarfu â nhw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gwnaethom gydnabod o'r cychwyn cyntaf yr her sydd ynghlwm wrth dalu teyrnged addas i fywyd eithriadol y Frenhines Elizabeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan ystyried ei phwysigrwydd cenedlaethol a lled ei gwaith a'i llwyddiannau fel Brenhines. Fodd bynnag, ar ôl ymgysylltu â nifer fawr o sefydliadau, grwpiau ac unigolion ledled y wlad, credwn fod yr argymhellion hyn yn ateb yr her hon; maent yn goffâd priodol o'r Frenhines ac yn adlewyrchu'r cyfnod y bu'n byw drwyddo, tra hefyd yn cynrychioli'r gwerthoedd yr oedd hi'n sefyll drostynt ac yn cynnig rhaglen goffáu ar gyfer yr 21ain ganrif.

Cyflwyniad

Roedd teyrnasiad 70 mlynedd Brenhines Elizabeth II, yr hiraf o blith holl frenhinoedd Prydain, yn un eithriadol – nid yn unig oherwydd ei hyd, ond hefyd oherwydd y cyfraniad unigryw a wnaeth i'n bywyd cenedlaethol.

Roedd y diweddar Frenhines yn rhan o'n hunaniaeth genedlaethol ac fe helpodd i lunio ein gwerthoedd; rhoddodd inni ymdeimlad o barhad drwy gyfnodau o newid mawr; a thrwy'r llu o wobrau a dyfarniadau a sefydlodd neu a roddodd ei henw iddynt, hyrwyddodd ragoriaeth ar draws amrywiaeth o feysydd ac roedd yn esiampl o wasanaeth cyhoeddus i ni i gyd.

Roedd gallu'r Frenhines i gysylltu â phobl o bob cefndir i'w deimlo'n gryf gan y miliynau y cyfarfu â nhw, gan gynnwys bron i draean o bobl Prydain a'i gwelodd neu a gafodd ryngweithio uniongyrchol â hi. Roedd ganddi ymdeimlad digyffelyb o ymroddiad i ddyletswydd ac i wasanaeth, gan weithredu fel noddwraig i dros 600 o elusennau a chyflawni dros 170 o ymweliadau gwladol swyddogol a 21,000 o ymrwymadau dros gyfnod ei theyrnasiad.¹ Mae ei chyfraniad yn parhau heddiw yng nghof ei haraithau a'i negeseuon Nadolig, digwyddiadau cenedlaethol, ac ymweliadau ledled y wlad; yn ogystal â gwaith parhaus y llu o elusennau a gefnogodd.

Mae coffáu'r Frenhines yn cydnabod oes o wasanaeth. Talodd cannoedd o filoedd eu teyrnged iddi yn 2022 yn ystod y cyfnod gorwedd, a gwylwyd ei hangladd gan fwy na 32 miliwn o wylwyr. Yn hanesyddol, mae cynlluniau cenedlaethol i goffáu brenhinoedd wedi'u cychwyn a'u cytuno drwy waith Pwyllgor cynghori annibynnol. Roedd coffáu Brenin Sior V ar ffurf cerflun ar Old Palace Yard, a chynllun etifeddiaeth a sicrhaodd gannoedd o fannau cyhoeddus sy'n dal i fodoli heddiw – sef Caeau Chwarae Brenin Siôr; yn yr un modd, coffawyd Brenin Sior VI drwy gerflun a darparu cyllid ar gyfer hyfforddiant arweinyddiaeth i bobl ifanc, hosteli ieuencid, a chanolfannau i'r henoed.

Am y rhesymau hyn, penododd Llywodraeth Ei Mawrhydi a'r Brenin Bwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth ar 5 Chwefror 2024. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ddatblygu, ymgynghori arnynt a chynghori ynghylch cofebion cenedlaethol priodol a theilwng i nodi teyrnasiad 70 mlynedd y Frenhines Elizabeth a'i bywyd o wasanaeth cyhoeddus, gan gyflwyno ein cynigion terfynol erbyn mis Ebrill 2026. Ceir mandad y Pwyllgor a'r Cylch Gorchwyl cyfatebol yn Atodiad B yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi argymhellion y Pwyllgor.

Aelodau Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth.

Penodwyd y Pwyllgor ar 5 Chwefror 2024. Mae gwaith a phrofiad pob un o aelodau'r Pwyllgor wedi ymwneud, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, â bywyd y Frenhines. Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Arglwydd Janvrin GCB GCVO QSO PC, a fu'n Ysgrifennydd Preifat y diweddar Frenhines rhwng 1999 a 2007. Yr aelodau eraill yw:

- Y Farwnes Valerie Amos LG PH PC
- Y Fonesig Amelia Fawcett DBE CVO
- Joe Garner
- Alex Holmes OBE
- Dr. Anna Keay OBE
- Sandy Nairne CBE FSA
- Syr William Shawcross CVO

Ceir bywgraffiadau aelodau'r Pwyllgor yn Atodiad C yr adroddiad hwn.

Egwyddorion Arweiniol

Fel pwyllgor, gwnaethom gydnabod maint ein tasg wrth lunio argymhellion priodol ar gyfer coffáu Brenhines Elizabeth II. Felly, comisiynwyd ymchwil helaeth gennym i gofebion blaenorol o wahanol fathau dros y degawdau diwethaf, a defnyddiwyd hyn i lunio set o egwyddorion a fyddai'n arwain ein gwaith wrth ddatblygu'r argymhellion.

Gwnaethom gytuno y dylai ein hargymhellion gwmpasu tair egwyddor allweddol: bod yn ddathliad ac yn fynegiant adnabyddadwy o deyrnasiad y diweddar Frenhines a'i chyfraniad at fywyd cenedlaethol, gan gynnwys ei hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus; darparu buddion diriaethol i bobl y Deyrnas Unedig; a chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol rywfaint o'r hyn a olygai'r diweddar Frenhines i'r bobl a'r cymunedau y bu'n eu gwasanaethu.

Yn ogystal, gwnaethom gydnabod y dylai'r argymhellion hefyd:

- fod ar raddfa uchelgeisiol, sy'n gymesur â choffáu'r brenhines a wasanaethodd hiraf yn y DU;
- atgyfnerthu ymdeimlad o falchder cenedlaethol, cymuned a llesiant;
- bod o arwyddocâd ac effaith genedlaethol;
- dal pwysigrwydd y Teyrnasoedd a'r Gymanwlad i'r diweddar Frenhines, a'i safle fel ffigwr byd-eang;
- bod yn hygyrch a chynhwysol;
- bod yn ysbrydoledig ac yn ddeniadol;
- bod yn barhaol; a,
- sicrhau gwerth am arian.

Ymagwedd at ein gwaith

Fel pwyllgor, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hargymhellion yn cael eu llywio gan safbwyntiau pobl ledled y Deyrnas Unedig. Rydym wedi cynnal rhaglen ymgysylltu helaeth, gan arwain ymweliadau a thrafodaethau bord gron ar draws y pedair gwlad gydag ystod eang o gyfranogwyr – gan gynnwys academyddion, arbenigwyr pwnc, a chynrychiolwyr cymunedol o gefndiroedd amrywiol. Mae'r ymgysylltiadau hyn wedi digwydd ar bob cam o'n gwaith, gan ganiatáu adborth parhaus ar yr argymhellion wrth iddynt ddatblygu.

Ymhlith y rhai y clywsom ganddynt roedd Llysgenhadon Ifanc o'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (National Citizens Service) a'r ymgyrch #IWill, yn ogystal â chynrychiolwyr o Gyngor Ieuencid San Steffan, a ddaeth â safbwyntiau gwerthfawr o safbwynt iau, ac yn achos yr olaf, safbwynt lleol hefyd. Gwelsom fod cydnabod lleisiau pobl ifanc yn hollbwysig, nid yn unig er mwyn sicrhau bod yr argymhellion coffaol yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl o bob oed, ond hefyd er mwyn creu cofeb a fydd yn para.

Er mwyn sicrhau bod ein hargymhellion yn adlewyrchu ehangder cymunedau'r Deyrnas Unedig, ymwelwyd â chynrychiolwyr lleol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, yn ogystal ag ardaloedd yng ngogledd a de-orllewin Lloegr, i glywed eu barn am ein cynigion. Roedd hyn yn cynnwys sgyrsiau â Meiri rhanbarthol, Arglwydd Raglawiaid a swyddogion dinesig eraill, yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau ffydd, cymunedol, celfyddydol, treftadaeth, ieuencid ac academaidd. Gwnaethom hefyd geisio barn cymunedau alltud yn y DU, yn ogystal â barn Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Tiriogaethau Tramor. Yn ogystal, o ystyried statws y Frenhines Elizabeth fel Pennaeth Gwladwriaeth y Teyrnasoedd, cynhaliwyd sawl cyfarfod â chynrychiolwyr eu llywodraethau. Gan gydnabod pwysigrwydd y Gymanwlad ehangach i Ei diweddar Mawrhydi, gwnaethom ymgysylltu â chynrychiolwyr o bob rhan o'r Gymanwlad, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Uchel Gomisiynwyr yn Llundain.

Rhoddodd yr ymweliadau hyn lawer o awgrymiadau a syniadau ysgogol inni. Yn ystod y sesiynau hyn, cawsom y fraint o glywed llawer o bobl yn trafod eu hatgofion o'r Frenhines, gan atgyfnerthu i ni pa mor bwysig oedd hi iddynt, ac y mae'n parhau i fod. Roedd ymgysylltu â dinasyddion o bob cefndir a rhan o'r DU yn rhan annatod o waith y Pwyllgor wrth gydnabod ymroddiad y Frenhines Elizabeth i ddinasyddion y Deyrnas Unedig:

"Yr wyf, yn ddiffuant, wedi ymrwymo fy hun i'ch gwasanaeth, fel y mae cynifer ohonoch chithau wedi ymrwymo i'm gwasanaeth innau. Drwy gydol fy mywyd, a chydag arddeliad fy holl galon, ymdrechaf i fod yn deilwng o'ch ymddiriedaeth."

Roedd ymchwil ffurfiol yn rhan allweddol o'r rhaglen, gan gynnwys arolygon barn ac ymgysylltu â Grŵp Cynghori Cyhoeddus a oedd yn cynnwys pobl a oedd yn adlewyrchu poblogaeth y Deyrnas Unedig. Cyfarfu'r grŵp ar bedwar achlysur, a rhannodd eu safbwyntiau, eu syniadau a'u hawgrymiadau â ni, gan gynnwys ar y dyluniadau a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer y gofeb genedlaethol, ac ar ein syniadau ar gyfer y rhaglen etifeddiaeth a'r gofeb ddigidol. Gwnaethom hefyd gynnal ymchwil benodol gyda grwpiau penodol, megis pobl ag anghenion hygyrchedd, er mwyn sicrhau bod ein hargymhellion yn gynhwysol.

Mae'r meddyliau, y safbwyntiau a'r awgrymiadau a glywsom drwy gydol ein gwaith wedi bod yn hollbwysig wrth ddatblygu'r argymhellion; maent wedi darparu syniadau arloesol ac wedi ein galluogi i brofi ein syniadau gyda phobl oedd â safbwyntiau amrywiol iawn, fel y gallwn ddweud, gyda pheth hyder, fod ein hargymhellion yn adlewyrchu barn nid yn unig y Pwyllgor, ond hefyd pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r Gymanwlad.

Argymhellion

Un o'r prif heriau rydym
wedi'u hwynebu fel
Pwyllgor fu sut y gellid
coffáu yn briodol ddyfnder
ac ehangder effaith
a chyfraniad y Frenhines,
mewn ffordd sy'n
adlewyrchu'r gorffennol
yn ddigonol ac ar yr un
pryd yn creu effaith
gadarnhaol yn ei henw
ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal â hyn, un o ystyriaethau allweddol y Pwyllgor fu sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian cyhoeddus.

Ar ôl ystyried nifer o opsiynau gwahanol, ac ymgysylltu ag arbenigwyr a chymunedau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r Gymanwlad, rydym wedi datblygu tri argymhelliad:

- **Cofeb Genedlaethol** sy'n sefyll fel etifeddiaeth barhaol i'r Frenhines ac i'r cyfnod y bu'n byw drwyddo, ac y bu, mewn sawl ffordd, yn helpu i'w lunio – yn dystiolaeth i genedlaethau'r dyfodol.
- **Rhaglen Etifeddiaeth** sy'n efelychu ac yn parhau cred ddofn y Frenhines ei hun mewn gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol, gan gysylltu pobl ar draws cymunedau.
- **Cofeb Ddigidol** sy'n cynnig cofeb fyw i'r Frenhines – gan gyfuno cynnwys archifol cyfoethog o gasgliadau nodedig ag atgofion gan y cyhoedd, a dod â'i gweithgareddau a'i llwyddiannau dros gyfnod ei theyrnasiad yn fyw er mwyn creu archif hanes cyhoeddus unigryw.

Mae pob un o'r argymhellion hyn yn ymwneud ag agwedd wahanol ar ei bywyd a'i chyfraniad, gan ategu ei gilydd i greu tystiolaeth barhaol i'r Frenhines a'i hetifeddiaeth.

Cofeb Genedlaethol ym Mharc Iago Sant

Roedd y Pwyllgor, ynghyd â mwyafrif y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, yn teimlo'n gryf y dylid coffáu'r Frenhines drwy gofeb gorfforol barhaol, a fyddai'n darparu man ar gyfer ymgynnull a myfyrio. Gwelsom y dylai weithredu fel tystiolaeth barhaol i'r Frenhines, ei gwerthoedd a'i hetifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i leoliad y gofeb: ystyriwyd amrywiol safleoedd, ond yn dilyn trafodaethau ar draws y pedair gwlad ac o ystyried arolygon barn y cyhoedd, daeth yn amlwg y dylai'r gofeb gael ei lleoli yn Llundain. Ganwyd y Frenhines yn y brifddinas a threuliodd lawer o'i bywyd yno fel brenhines. Yn ogystal, mae gan y ddinas arwyddocâd cyfansoddiadol fel canolbwynt Llywodraeth y DU a'r frenhiniaeth. Fel canolfan drafnidiaeth ganolog, byddai cofeb yn Llundain yn hawdd ei chyrraedd i ymwelwyr.

Dewiswyd Parc Iago Sant oherwydd ei leoliad ar hyd llwybr seremonïol y Mall, ac oherwydd ei agosrwydd at safleoedd sy'n berthnasol i'r Frenhines Elizabeth, y frenhiniaeth a'r cyfansoddiad. Gerllaw mae Palas Buckingham, sef preswylfa swyddogol y Brenin, Clarence House, sef ei chartref ar ôl ei phiodas a chyn ei derbyn i'r orsedd, ac Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad ym Marlborough House. Mae yna hefyd gofebion gerllaw i'r Frenhines Victoria, i'w rhieni Brenin Siôr VI a'r Frenhines Elizabeth, y Fam Frenhines, ac i'w mam-gu, y Frenhines Mary, ac i'w hen fam-gu, y Frenhines Alexandra.

Bydd y gofeb genedlaethol, a ddyluniwyd gan Foster + Partners, yn ymestyn o Marlborough Gate ar y Mall ar safle sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de ar draws y parc hyd at Birdcage Walk, dros lyn Parc Iago Sant.

Bydd man coffa ffurfiol wedi'i neilltuo i'r Frenhines Elizabeth yn cael ei greu ar y Mall, o flaen Marlborough Gate wedi'i ail-lunio a'i adleoli. Bydd Queen Elizabeth Place yn cynnwys meinciau a bolardiau newydd, gydag arysgrifau sy'n cynrychioli cenhedloedd y Deyrnas Unedig a'r Teyrnasoedd eraill yr oedd hi'n sofran arnynt. Bydd Martin Jennings yn cerflunio cerflun y Frenhines Elizabeth, gan ei darlunio yn gwisgo gwisgoedd Urdd y Gardys yn gynnar yn ei theyrnasiad, gyda'r ysbrydoliaeth yn dod o bortread enwog ohoni gan Pietro Annigoni. Mae dyluniad palmant y gofod hwn wedi'i ysbrydoli gan Capitoline Hill yn Rhufain, gan ddefnyddio bandiau o gerrig o liwiau gwahanol ac yn gysylltiedig â phatrymau teilsio a ddarganfuwyd gan Syr Roger Penrose OM, un o fathemategwyr byw mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig.

Ychydig y tu ôl i Marlborough Gate sydd wedi'i adleoli bydd cerflun o'r Tywysog Philip, y cymar brenhinol hiraf ei wasanaeth yn y DU, yn talu teyrnged i'w gyflawniadau niferus, megis Gwobr Dug Caeredin, a'i waith ym meysydd dylunio, technoleg a chadwraeth. Bydd y cerflun hwn hefyd yn cael ei gerflunio gan Martin Jennings.

Bydd yr ardal i'r gogledd o'r llyn yn cael ei thrawsnewid yn United Kingdom Garden. Bydd yr ardd hon yn mynegi cysylltiadau'r Frenhines Elizabeth â chenedloedd y Deyrnas Unedig drwy ymgorffori planhigion brodorol, yn ogystal â thrwy gynnwys symbolau perthnasol ac elfennau adrodd straeon artistig yn y manau myfyrio o fewn yr ardd. Bydd cydweithio agos â'r llywodraethau datganoledig i lunio'r elfennau unigryw hyn, a bydd crefftwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig hefyd yn rhan o'r gwaith.

Yn ymestyn tua'r de o Garden of the United Kingdom bydd pont newydd dros llyn Iago Sant, gyda'i dyluniad wedi'i ysbrydoli gan Tiara Frinj y Frenhines Mary, a wisgwyd gan y Frenhines Elizabeth ar ddiwrnod ei phriodas yn 1947. Mae'r bont yn ehangu yn y canol, gan ddarparu lle i ymwelwyr edmygu'r golygfeydd tuag at Balas Buckingham a San Steffan heb amharu ar ddefnydd y bont fel llwybr tramwy i drigolion lleol a chymudwyr.

Bydd The Commonwealth Garden yn cael ei chreu i'r de o'r llyn, a bydd hefyd yn cynnwys manau i fyfyrion ynghyd â phlanhigion brodorol o'r Gymanwlad. Bydd yr ardd yn cynnwys The Commonwealth Wind Sculpture gan Yinka Shonibare CBE RA. Bydd y cerflun hwn, a ysbrydolwyd gan ffabrig gwisg coroni'r Frenhines, yn ymgorffori darluniau o flodau cenedloedd y Gymanwlad.

Wrth fynedfa Birdcage Walk i'r parc bydd penddelw yn darlunio'r Frenhines yn hwyrach yn ei hoes, wedi'i gerflunio gan Karen Newman MRSS. Yn wahanol i fynedfa'r Mall, bydd y gofod hwn yn fwy anffurfiol, gan adlewyrchu rôl y Frenhines fel brenhines gyfansoddiadol ac fel unigolyn preifat, yn ogystal â themâu ffurfioldeb ac anffurfioldeb yn nyluniad y parc.

Rydym yn argymhell y dylid cynnwys elfennau adrodd straeon ar draws y safle, rhai ohonynt ar ffurf Llwybr Darganfod, er mwyn sicrhau bod y gofeb yn cynrychioli nid yn unig rôl gyfansoddiadol y Frenhines Elizabeth fel pennaeth gwladwriaeth, ond hefyd y digwyddiadau, y datblygiadau a'r newidiadau eithriadol a fu yn ystod ei theyrnasiad.

Mae'n rhan o uchelgeisiau'r Pwyllgor y bydd gwelliannau digidol yn cael eu hychwanegu at safle'r gofeb yn y dyfodol, gan roi profiad dyfnach i ymwelwyr a mynediad ehangach at wybodaeth a sylwadau. Rydym yn awyddus i gefnogi cysylltedd ar y safle, yn enwedig pe bai profiad digidol estynedig yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn argymhell y dylid blaenoriaethu unrhyw gyllid wrth gefn i ariannu gosod WiFi ar y safle.

Drwy gydol y broses o ddatblygu dyluniad safle'r gofeb, mae'r Pwyllgor a Foster + Partners wedi rhoi ystyriaeth ofalus i bwysigrwydd hanesyddol y parc – gan sicrhau bod dyluniad y gofeb yn gwella cynllun tirwedd gwreiddiol John Nash, yn hytrach na'i drechu. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n helaeth â The Royal Parks, yn ogystal â grwpiau treftadaeth a grwpiau budd lleol, er mwyn sicrhau bod cymeriad unigryw Parc Iago Sant yn parhau'n gyfan.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y gofeb gorfforol ym mis Ionawr 2026, ac mae bellach wedi'i gymeradwyo'n unfrydol gan Gyngor Dinas San Steffan. Mae rhagor o wybodaeth am y gofeb gorfforol ym Mharc Sant Iago ar gael yn <https://www.gov.uk/government/organisations/the-queen-elizabeth-memorial-committee>.



Adroddiad Argymhellion Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth



Rhaglen Etifeddiaeth

Roedd gennym yr her o lunio cynlluniau ar gyfer rhaglen etifeddiaeth ledled y DU a fyddai'n hyrwyddo gwerthoedd y Frenhines Elizabeth ac yn dod â budd i bobl a chymunedau ar draws y DU, mewn ffordd y gellir ei hadnabod fel teyrnged addas. Bu'r Frenhines Elizabeth yn siarad drwy gydol ei theyrnasiad am rym cymuned – pwysigrwydd i bobl deimlo cysylltiad â'i gilydd ac â'r lleoedd y maent yn eu galw'n gartref.

Wedi'i hysgogi gan ei ffydd gref, ac yn enwedig yn ei negeseuon Nadolig personol iawn, dychwelai dro ar ôl tro at y syniad fod "pawb yn gymydog i ni", ac at ei chred yn effaith drawsnewidiol "pobl gyffredin yn gwneud pethau anghyffredin".

Roedd gan y Frenhines allu unigryw i ddod â phobl ynghyd, a'n nod ni yw harneisio hynny mewn rhaglen sy'n ychwanegu gwerth at y gwaith eithriadol sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan bobl a sefydliadau ledled y DU.

Rydym yn argymhell sefydlu **Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth** i gyflawni rhaglen gymunedol genedlaethol a fydd yn gweithredu ledled y DU. Gan weithio drwy elusennau gweithredu, bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu grantiau i gymunedau mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd, gan gefnogi adfywio adeiladau cymunedol a rennir a manau gwyrdd – gyda ffocws ar leoedd sy'n dod â gwahanol bobl leol ynghyd ac y gellir eu cynnal yn yr hirdymor. Nod yr Ymddiriedolaeth yw cysylltu â phobl a grwpiau nad ydynt fel arfer yn cael cyllid o'r math hwn o raglenni, a buddsoddi mewn prosiectau dros gyfnod hir er mwyn meithrin partneriaethau cadarn. Nod Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth yw sicrhau bod ei hetifeddiaeth yn parhau'n fyw mewn cymunedau ledled y Deyrnas Unedig am genedlaethau i ddod.

Gwnaethom gytuno ar nifer o egwyddorion a oedd yn sail i ddatblygiad y cysyniad ar gyfer y rhaglen etifeddiaeth. Dylai'r cysyniad:

- fod yn deyrnged weladwy ac adnabyddadwy i'r Frenhines Elizabeth yn awr ac yn y dyfodol;
- meddu ar hunaniaeth unigryw;
- grymuso pobl ar lefel leol;
- dod â phobl ynghyd;
- cael prosiectau ledled y DU;
- cysylltu â phobl gyffredin; a,
- bod â'r potensial i gydlynu â gwledydd eraill y Gymanwlad.

Yn ystod ein hymgysylltiad ag elusennau cymunedol a sefydliadau lleol ledled y wlad, daeth thema gyson i'r amlwg: mae llawer o gymunedau'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar y cymorth parhaus a chyfannol sydd ei angen i gynnal a gwneud y gorau o'r manau a'r lleoedd sydd eisoes yn bodoli. Heb fuddsoddiad hirdymor ac arbenigedd lleol, mae adeiladau'n mynd yn adfeilledig ac yn cael eu tanddefnyddio, ac ni allant gefnogi bywyd cymunedol. Mae Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth wedi'i chynllunio i lenwi'r bwlch hwn, gan harneisio grym etifeddiaeth y Frenhines i ddod â phobl ynghyd er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol.

Wrth ddatblygu'r argymhelliad hwn, buom yn gweithio'n helaeth gyda sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, academyddion ac arbenigwyr polisi ledled y DU. Ar sail eu mewnwelediad a'u cyngor, credwn y dylai'r egwyddorion canlynol fod yn sail i weithrediad y rhaglen:

- Dylai'r rhaglen feithrin cydweithio ar draws cymunedau lleol yn eu holl amrywiaeth, gyda'r uchelgais o greu manau aml-ddefnydd ac aml-genhedlaethol y mae gwahanol grwpiau'n eu rhannu ac yn eu gwerthfawrogi gyda'i gilydd.
- Dylai prosesau allgymorth a gwneud cais gael eu cynllunio i gyrraedd prosiectau ac arweinwyr cymunedol nad ydynt efallai wedi ymgysylltu â rhaglenni tebyg o'r blaen, gan sicrhau bod buddion yr Ymddiriedolaeth yn ymestyn at y rhai sydd eu hangen fwyaf. Gall hyn olygu darparu cymorth ychwanegol gyda'r prosesau gwneud cais er mwyn sicrhau bod y cyllid yn hygyrch i bawb.
- Dylai'r cymorth fod yn gyfannol – gan fynd i'r afael nid yn unig ag adfywio corfforol adeilad neu fan gwyrdd, ond hefyd ag anghenion adnoddau hirdymor sy'n gwneud gofod yn weithredol ac yn effeithiol, gan gynnwys hyrwyddwyr lleol, staff, arbenigedd a hyfforddiant.

Nod y rhaglen yw ymgorffori ysbryd negeseuon y Frenhines am feithrin cysylltiad dynol, ei gwerthoedd a'i hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus, gan helpu pobl i wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol i fywydau a llesiant y rhai sy'n byw yn eu hardal leol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar sicrhau effaith ddofn, gyda'r potensial i gefnogi prosiectau penodol dros sawl blwyddyn yn olynol. Gan ddechrau gyda set benodol o grantiau mewn gwahanol rannau o'r DU, bydd y rhaglen yn ehangu ei chyrhaeddiad dros amser – gan sicrhau bod etifeddiaeth y Frenhines yn cyffwrdd bywydau ystod gynyddol eang o'r bobl a'r lleoedd yr oedd hi mor ymroddedig iddynt.

Pwysleisiodd ein hymgysylltu cyhoeddus bwysigrwydd cyfathrebu'n glir y gwahaniaeth diriaethol y bydd y rhaglen yn ei wneud, gan gynnwys lleihau unigrwydd, annog perthnasoedd rhyng-genhedlaethol, a gwella amgylcheddau cymunedol, yn enwedig o ystyried y pwysau y mae llawer o bobl yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Rydym yn argymhell y dylai cyfraniad y Llywodraeth at y rhaglen fod ar ffurf gwaddol o £40 miliwn i Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth. Mae strwythur gwaddol yn golygu, yn ogystal â defnyddio'r cyllid i ddyfarnu grantiau, fod y cyllid hwnnw'n cael ei fuddsoddi i gynhyrchu incwm dros amser, gan roi'r annibyniaeth a'r sefydlogrwydd ariannol i'r Ymddiriedolaeth ddyfarnu grantiau am o leiaf 20 mlynedd. Mae'r dull hwn yn sicrhau'r effaith hirdymor fwyaf posibl o'r buddsoddiad cyhoeddus, gan sicrhau ar yr un pryd fod trefniadau sicrwydd priodol ar waith. Teimlwn y bydd cyflawni'r rhaglen drwy gorff annibynnol yn galluogi'r rhaglen i fod yn hyblyg, yn arloesol ac yn barhaol. Mae anghenion cymunedau'n newid dros amser, ac rydym am i'r Ymddiriedolaeth fod yn ymatebol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu grantiau ledled y DU. Bydd y gwaddol hefyd yn cael ei ategu drwy godi arian ychwanegol, gan ymestyn ei gyrhaeddiad a'i oes ymhellach.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu gyda thri aelod cychwynnol o'r Bwrdd, sef Syr Damon Buffini (Cadeirydd), Alex Holmes a John Booth. Bydd rhagor o ymddiriedolwyr yn cael eu recriwtio maes o law, gan sicrhau bod y Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth y DU a'r cymunedau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda nhw. Mae gwaith yr Ymddiriedolaeth yn ei gamau cynnar, ac rydym yn disgwyl iddi gael ei lansio'n ffurfiol yn hydref 2026, gan gynnwys darparu rhagor o fanylion am y broses weithredu a'r ffyrdd o gymryd rhan. Ceir rhagor o fanylion am Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth yn <http://www.queenelizabethtrust.org/>.



Adroddiad Argymhellion Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth



PA: PA images

Cofeb Ddigidol

Drwy gydol ei theyrnasiad, teithiodd y Frenhines Elizabeth yn aml ledled y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Mae llawer o bobl yn trysori atgofion o gyfarfod â'r Frenhines a'i gweld yn ystod yr ymweliadau hyn, ac yn ystod yr ymrwymadau a gynhaliodd ym Mhalas Buckingham, megis ei phartïon gardd.

Yn ystod ein cyfarfodydd ag arbenigwyr a chymunedau, roeddem yn gwerthfawrogi'n fawr glywed llawer o'r straeon hyn a rannwyd â ni gan bobl. Fodd bynnag, sylweddolom fod perygl i'r atgofion hyn, sy'n rhoi cipolwg teimladwy ar brofiadau pobl o'r Frenhines a'r effaith a gafodd arnynt, gael eu colli wrth i amser fynd heibio.

Amlygodd ymchwil bellach a wnaethom fod awydd cryf am gofeb ddigidol i ddatlu bywyd y Frenhines: un a fyddai'n harneisio grym technoleg, yn dod â'r coffâd i'r oes bresennol, ac yn cyrraedd mwy o bobl wrth gwarchod hanes ar gyfer addysg ac ymchwil. Dywedodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw eu bod yn gweld cofeb ddigidol fel ffordd o estyn allan at lawer o bobl ledled y byd i ddatlu bywyd ac etifeddiaeth Brenhines Elizabeth II, a'r hyn yr oedd hi'n ei gynrychioli i'r DU ac yn fyd-eang o ran diwylliant, sefydlogrwydd, cryfder, hirhoedledd, ond hefyd dynoliaeth.

Bydd Cofeb Ddigidol y Frenhines Elizabeth yn darparu plattform lle gall pobl gofnodi a rhannu'r atgofion hyn, a darllen cyfraniadau pobl eraill. Bydd yr atgofion yn cael eu cysylltu â'r Court Circular, sef cofnod dyddiol o fywyd swyddogol y Frenhines, gan grwpio atgofion yn ôl lleoedd a digwyddiadau penodol. Bydd hyn yn gweithredu fel cofeb gyfunol a rennir gan y bobl i'r Frenhines, gan ddod â'r gwaith a wnaeth yn fyw a'i gofnodi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn yr archif hanes cyhoeddus unigryw hon.

Hyd yma, mae Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn ymchwilio, yn profi ac yn adeiladu'r wefan ar gyfer y lansiad ym mis Ebrill. Rydym yn argymhell y dylid parhau i ddatblygu Cofeb Ddigidol y Frenhines Elizabeth dros y deuddeg mis nesaf, ac y dylid dod o hyd i gartref hirdymor i'r gofeb lle y caiff ei lletya, ei chynnal a'i churadu am hyd at bedair blynedd. Ceir rhagor o fanylion am y gofeb ddigidol yn <http://queenelizabeth.com>





PA: PA images

Casgliadau

Rydym yn hyderus bod y tri argymhelliad, gyda'i gilydd, yn cynnig coffâd addas i deyrnasiad eithriadol 70 mlynedd Brenhines Elizabeth II ac i'w hoes o wasanaeth. Gobeithiwn y daw manteision y coffáon hyn i'r amlwg; bydd y safle ym Mharc Iago Sant yn darparu man i fyfyrío a chofío, bydd cymunedau'n cael eu dwyn ynghyd drwy'r Ymddiriedolaeth, a bydd atgofion nas clywyd amdanynt o'r blaen, ynghyd â chynnwys yn ymwneud â digwyddiadau, i'w gweld ar y gofeb ddigidol.

Mae cyllid ar gyfer cofebion i'r Frenhines Elizabeth ym mhob un o bedair gwlad y DU hefyd wedi'i gytuno; cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025 y bydd £1.4 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i gefnogi eu cynlluniau coffáu.

Yn dilyn cwblhau gwaith y Pwyllgor, rydym yn cynnig y dylai'r gwaith o gyflawni'r gofeb genedlaethol gael ei reoli gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Dylid rheoli trefniadau llywodraethu'r gwaith adeiladu yn fanwl er mwyn sicrhau bod y dyluniad terfynol yn bodloni argymhellion y Pwyllgor, a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau.

Dylai Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth barhau i ddatblygu dulliau cyflawni ar gyfer dyfarnu grantiau, gyda'r disgwyl y bydd Prif Weithredwr yn cael ei recriwtio erbyn mis Medi, yn barod ar gyfer lansiad ffurfiol yn hydref eleni.

Disgwyliwn y bydd y wefan ddigidol yn cael ei lansio ym mis Ebrill, gan alluogi pobl ledled y byd i gyfrannu eu hatgofion am y Frenhines Elizabeth a chysylltu â digwyddiadau drwy gydol ei theyrnasiad.

Credwn fod yr argymhellion hyn yn ateb yr her o adlewyrchu cyfraniad rhagorol y diweddar Frenhines at fywyd cenedlaethol ein gwlad drwy gydol ei theyrnasiad. Rydym yn eu cyflwyno i Lywodraeth Ei Fawrhydi ac i Ei Fawrhydi y Brenin.

¹<https://yougov.com/en-gb/articles/20805-almost-third-country-has-seen-or-met-queen-real-li><https://www.royal.uk/queen-elizabeth-ii-life-and-reign> <https://www.royal.uk/queen-elizabeth-ii-and-the-commonwealth> <https://www.royal.uk/70-facts-mark-queens-platinum-jubilee#:~:text=4.,the%20course%20of%20her%20reign.>

Atodiad A: Cydnabyddiaethau

Datblygwyd yr argymhellion hyn dros gyfnod o ddwy flynedd, gan dynnu ar awgrymiadau, mewnwelediadau a chynghor ystod eang o sefydliadau ac arbenigwyr, gan gynnwys:

- Aelodau Seneddol, yn enwedig Gweinidog Tŷ'r Arglwyddi;
- Arbenigwyr ar draws y sectorau digidol a thechnolegol;
- Arbenigwyr polisi'r llywodraeth ym meysydd adeiladu cymunedau, manau gwyrdd, cadwraeth, cydlyniant cymdeithasol, lleihau unigrwydd ac adfywio, o bob rhan o Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon;
- Arbenigwyr treftadaeth a thirlunio;
- Awdurdodau lleol ledled y DU, yn ogystal â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol;
- Cyrff hyd braich sy'n gyfrifol am raglenni cymunedol ledled y DU, gan gynnwys Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol;
- Elusennau Brenhinol sy'n gweithio gyda chymunedau, gan gynnwys y Royal Foundation, y King's Foundation, y King's Trust, y King's Countryside Fund a Fields in Trust;
- Elusennau cymunedol ledled y DU, gan gynnwys UK Community Foundations, Groundwork a Locality.
- Elusennau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar seilwaith cymunedol, manau gwyrdd a grymuso pobl leol mewn ardaloedd gwledig a threfol ledled y DU;
- Foster + Partners;
- Grwpiau sy'n canolbwyntio ar gysylltiadau rhyng-genhedlaethol, gan gynnwys Intergenerational England;
- Grwpiau sy'n cynrychioli pobl ifanc, gan gynnwys y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol a'r ymgyrch #IWill;
- Haneswyr ac academyddion sy'n arbenigo mewn cof diwylliannol a choffáu;
- Prosiectau etifeddiaeth a chymunedol blaenorol ar raddfa fawr, gan gynnwys Big Local a Spirit of 2012;
- Rhaglenni Brenhinol presennol a blaenorol, gan gynnwys Gwobr Earthshot a rhaglenni Jiwbilî y Frenhines;
- The Royal Parks;
- Y rhai a fu'n rhan o'r Grwpiau Cyngori Cyhoeddus; ac,

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt am yr amser a'r ymdrech a roddwyd mor hael ganddynt inni.

Atodiad B: Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth fel a ganlyn:

1. Gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog ac i'r Brenin ar gyfer cofeb barhaol addas a rhaglen etifeddiaeth ar gyfer Brenhines Elizabeth II.
2. Sicrhau bod y rhaglen goffáu yn symud ymlaen yn unol â'r amserlenni a gytunwyd, gyda'r cynigion terfynol yn cael eu cyhoeddi yn 2026.
3. Darparu argymhellion ar gyfer cofeb barhaol, gan gynnwys arbenigedd ar gomisiynu a dewis dyluniad fel y bo'n briodol.
4. Darparu argymhellion ar gyfer un neu ragor o raglenni etifeddiaeth i adlewyrchu cyfraniad Brenhines Elizabeth II at fywyd cenedlaethol.
5. Ymgysylltu â'r Llywodraethau Datganoledig a'r cyhoedd ehangach, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a syniadau'n cael eu casglu a bod gweithgarwch yn cael ei gydlynu.
6. Ymgysylltu â Thrysorlys Ei Fawrhydi wrth i'r cynigion gael eu datblygu, er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni yn unol ag egwyddorion gwerth am arian ac arfer da.
7. Dod ag arbenigedd arbenigol ac arbenigwyr pwnc ynghyd i gynghori'r Pwyllgor yn ôl yr angen.
8. Sicrhau bod profiadau a gwersi'n cael eu cofnodi er mwyn cefnogi prosiectau goffáu'r Llywodraeth yn y dyfodol.
9. Goruchwyllo mesurau priodol i liniaru risg wrth iddynt ymwneud â datblygu'r cynigion goffáu.

Llywodraeth Ei Fawrhydi a'r Aelwyd Frenhinol fydd yn gyfrifol am ystyried a bwrw ymlaen â gweithredu'r argymhellion, gyda hynny'n cael ei gydlynu drwy'r Ysgrifenyddiaeth.

Atodiad C: Aelodau'r Pwyllgor

Yr Arglwydd Janvrin GCB GCVO PC

Yr Arglwydd Janvrin GCB GCVO QSO PC sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Ymunodd Robin Janvrin â'r Aelwyd Frenhinol yn 1987 a bu'n gwasanaethu fel Ysgrifennydd Preifat i Frenhines Elizabeth II rhwng 1999 a 2007, ar ôl gwasanaethu fel ei Ysgrifennydd y Wasg, ei Chynorthwydd Ysgrifennydd Preifat a'i Ddirprwy Ysgrifennydd Preifat rhwng 1987 a 1999.

Cyn ymuno â'r Aelwyd Frenhinol, gwasanaethodd yn y Llynges Frenhinol rhwng 1964 a 1975 ac yn y Gwasanaeth Diplomyddol rhwng 1975 a 1987, gan ddal swyddi ym Mrwsel gyda NATO ac yn New Delhi.

Ers gadael y Tŷ Brenhinol, gwasanaethodd yr Arglwydd Janvrin fel Cadeirydd Sefydliad Brenhinol Dug a Duges Caergrawnt a'r Tywysog Harry o 2010 i 2016, ac yn Ymddiriedolwr yr Oriol Bortreadau Genedlaethol o 2008 i 2016 ac Ymddiriedolaeth Lles y Gurkha o 2010 i 2016. Bu'n Uwch-gynghorydd i HSBC Private Bank (UK) rhwng 2008 a 2019. Bu'n Aelod o Fwrdd y Llyfrgell Brydeinig rhwng 2017 a 2025, yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Goffa Normandy rhwng 2018 a 2023, ac mae'n Ysgrifennydd Urdd Teilyngdod.

Cafodd ei ddyrchafu i'r bendefigaeth yn 2007 ac mae'n eistedd fel arglwydd trawsbleidiol yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Y Farwnes Valerie Amos LG PH PC

Mae'r Farwnes Valerie Amos wedi bod yn Feistres Coleg y Brifysgol, Rhydychen, ers mis Medi 2020. Cyn hynny, bu'n Gyfarwyddwr SOAS, Prifysgol Llundain. Bu'n Weinidog yn y Cabinet rhwng 2003 a 2007, gan gynnwys gwasanaethu fel Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygu Rhyngwladol, Arweinydd Tŷ'r Arglwyddi, ac Arglwydd Lywydd y Cyngor.

Bu'r Farwnes Amos hefyd yn Uchel Gomisiynydd y DU i Awstralia, ac roedd yn Is-Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig dros Faterion Dyngarol ac yn Gydlynnydd Cymorth Brys rhwng 2010 a 2015.

Mae diddordebau'r Farwnes Amos yn cynnwys polisi tramor a materion datblygu, cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a chynhwysiant, yn ogystal ag addysg. Mae hi ar fwrdd Sefydliad Mastercard, Sefydliad y Cenhedloedd Unedig a Sefydliad y Llywodraeth ac mae hefyd yn aelod o fwrdd ymgynghorol Sefydliad Mo Ibrahim a Noddwr Bwrsariaeth Amos.

Penodwyd y Farwnes Amos yn Gydymaith Arglwyddes Urdd y Gardys gan y diweddar Frenhines ym mis Ionawr 2022, anrhydedd yn rhodd gan y Frenhines yn unig.

Y Fonesig Amelia Fawcett DBE CVO

Mae'r Fonesig Amelia yn Gyfarwyddwr Anweithredol (a'r cyn Gyfarwyddwr Arweiniol) yn State Street Corporation yn Boston, Massachusetts. Roedd hi'n Llywodraethwr Ymddiriedolaeth Wellcome o 2019-2023, yn Gyfarwyddwr Anweithredol ac yna'n Gadeirydd Kinnevik AB yn Stockholm o 2011 – 2021 ac yn Guardian Media Group plc o 2007 – 2013. Gweithiodd i Morgan Stanley am 20 mlynedd, gan ymuno yn Llundain ym 1987 a dod yn Brif Swyddog Gweithredu ac Is-gadeirydd gweithrediadau Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica yn 2002. Dechreuodd y Fonesig Amelia ei gyrfa yn y cwmni cyfreithiol Sullivan & Cromwell yn yr Unol Daleithiau, yn gyntaf yn Efrog Newydd ac yna ym Mharis.

Mae'r Fonesig Amelia yn Gyd-gadeirydd y Panel Ymgynghorol Rhyngwladol ar Gredydau Bioamrywiaeth, Cadeirydd Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew, Cadeirydd y Gynghrair Bioeconomi Gylchol ac yn Ymddiriedolwr Project HOPE UK. Tan yn ddiweddar, hi oedd Cadeirydd y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew, Cadeirydd y Bwrdd Safonau ar gyfer Buddsoddiadau Amgen, aelod Anweithredol o Fwrdd Trysorlys EM, Cadeirydd Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru, Dirprwy Gadeirydd a Llywodraethwr Ysgol Fusnes Llundain a Chomisiynydd Comisiwn Fulbright y DU-UDA. Mae hi hefyd wedi bod yn aelod o Lys Banc Lloegr ac yn Ddirprwy Gadeirydd yr Oriel Bortreadau Genedlaethol.

Penodwyd y Fonesig Amelia yn Gomander Urdd Frenhinol Fictoraidd (CVO) yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd Ei diweddar Mawrhydi y Frenhines yn 2018, anrhydedd sydd yn rhodd gan y Frenhines yn unig. Cafodd ei phenodi'n Fonesig Gomander yr Ymerodraeth Brydeinig (DBE) yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2010 ac yn CBE yn 2002, yn y ddau achos am wasanaethau i'r diwydiant gwasanaethau ariannol. Derbyniodd Wobr Llysgennad Tywysog Cymru yn 2004.

Joe Garner

Arweiniodd Joe Gymdeithas Adeiladu Nationwide drwy Brexit a COVID fel Prif Swyddog Gweithredol o 2016 i 2022. Dechreuodd ei yrfa gyda Procter & Gamble ym 1991 wedi'i leoli yn bennaf yn Rwmania. Yn 2001 ymunodd â Currys Plc cyn symud i HSBC yn 2004 lle aeth ymlaen i arwain y DU. Yn 2014 daeth yn Brif Swyddog Gweithredol Openreach BT.

Roedd Joe yn gyfarwyddwr anweithredol Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol o 2008-2010 ac yn gwasanaethu ar Fwrdd Cyllid y DU a Phanel Ymarferwyr y Rheoleiddiwr Ariannol. Mae Joe bellach yn gweithio fel cynghorydd i Brif Weithredwyr ac roedd yn gynghorydd i'r Llywodraeth wrth ddatblygu'r Weledigaeth Taliadau Genedlaethol, yn dilyn ei adolygiad Dyfodol Taliadau 2023.

Mae Joe yn Noddwr Triathlon Prydain ac yn gystadleuydd grŵp oedran Prydain Fawr gan orffen yn 16eg ym Mhencampwriaethau'r Byd 2025. Bu'n Gadeirydd yr elusen Triathlon Prydain o 2013 i 2021 ac ers 2023 mae'n Gadeirydd yr elusen Tennis First.

Alex Holmes OBE, Arweinydd Ifanc y Frenhines

Alex Holmes OBE yw Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol Gwobr Diana, yr elusen a ysbrydolwyd gan gred y Dywysoges Diana ym mhŵer trawsnewidiol pobl ifanc. Mae'n arwain gwaith i gydnabod a chefnogi'r rhai sy'n gwneud newid ledled y byd, gan eu helpu i feithrin y sgiliau a'r hyder i gynyddu eu heffaith. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr yn BBC Children in Need, lle mae'n canolbwyntio ar We Move FWD, ymrwymiad deng mlynedd a chyfleoedd creu arian i blant a phobl ifanc Duon a sefydliadau dan arweiniad pobl Dduon.

Wedi'i ysgogi gan ei brofiad ei hun o fwlio, sefydlodd Alex y rhaglen Llysgenhadon Gwrth-fwlio yn 2004. Ers hynny, mae'r fenter dan arweiniad cyfoedion wedi hyfforddi mwy na 50,000 o bobl ifanc ac addysgwyr ledled y DU ac yn rhyngwladol, ac mae'n weithredol mewn dros 5,000 o ysgolion.

Mae Alex yn cynghori prif lwyfannau technoleg a chyfryngau cymdeithasol ar ddiogelwch ieuencid a niwed ar-lein, ac mae'n gyfrannwr rheolaidd i'r cyfryngau, gan gynnwys ar ITV This Morning a CBBC Newsround. Mae hefyd wedi cyfrannu at waith yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y Strategaeth Ieuencid Genedlaethol fel cynghorydd arbenigol.

Mae wedi cael ei gydnabod fel anrhydeddwr Forbes 30 Dan 30 ac wedi derbyn Gwobr Ddyngarol Muhammad Ali. Yn 2017, cafodd ei enwi'n Arweinydd Ifanc y Frenhines gan Ei Mawrhydi Brenhines Elizabeth II am ei waith yn mynd i'r afael â bwlio ac yn hyrwyddo pobl ifanc ledled y Gymanwlad. Mae Alex hefyd yn aelod o fwrdd ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth y Frenhines Elizabeth a sefydlwyd yn ddiweddar, un o argymhellion Pwyllgor Coffa'r Frenhines Elizabeth.

Anna Keay OBE

Mae Dr Anna Keay OBE yn hanesydd, curadur a darlledwr a anwyd a magwyd yn Ucheldiroedd Gorllewinol yr Alban. Astudiodd Hanes Modern yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen ac mae ganddi PhD o Brifysgol y Frenhines Mary, Llundain. Roedd hi gynt yn Guradur Palasau Brenhinol Hanesyddol ac yn Gyfarwyddwr Curadurol Treftadaeth Lloegr.

Ar hyn o bryd, Dr Keay yw Cyfarwyddwr (Prif Swyddog Gweithredol) yr elusen adeiladau hanesyddol, sef yr Ymddiriedolaeth Landmark, sy'n gweithio i achub ac atgyweirio adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl. Enillodd prosiect yr elusen i adfywio Castell Astley yn Swydd Warwick, sydd mewn cyflwr adfeiliedig, Wobr Stirling am bensaerniaeth yn 2013.

Mae Anna yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth y Casgliad Brenhinol ac Ymddiriedolaeth y Pilgrim. Mae hi wedi ysgrifennu a darlledu'n eang ar hanes a diwylliant Prydain gan gynnwys cyfrannu at ddarllediadau'r BBC o Angladd Brenhines Elizabeth II a choroni'r Brenin. Enillodd ei llyfr diweddaraf, *The Restless Republic* (William Collins, 2022) Wobr Duff Cooper am Lyfrau Ffeithiol ac ef oedd llyfr Hanes y Flwyddyn gan *The Sunday Times*, 2022.

Sandy Nairne CBE FSA

Mae Sandy Nairne yn awdur a churadur a hyd at 2015 roedd yn Gyfarwyddwr yr Oriol Bortreadau Genedlaethol. Mae wedi gweithio o'r blaen yn Sefydliad y Celfyddydau Cyfoes, Cyngor y Celfyddydau, ac fel Gyfarwyddwr Rhaglenni yn Tate.

Mae'n Gadeirydd Cronfa'r Gelf, yn Ddirprwy Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Ffabrig yng Nghadeirlan Sant Paul ac yn cefnogi canolfannau gofal cancer Maggie fel cynghorydd celf. Mae'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cymeriadau Nodyn Banc Lloegr a phanel celfyddydau a dyniaethau Sefydliad Wolfson. Am sawl blwyddyn bu'n Gadeirydd Grŵp Comisiynu'r Pedwerydd Plinth.

Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys State of the Art, 1987, yr antholeg Thinking about Exhibitions, 1996, The 21st Century Portrait, Art Theft and the Case of the Stolen Turners, 2011, a The Coincidence of Novembers, 2020. Ef yw cyd-awdur bywgraffiad i'r Arglwydd Desborough a gyhoeddwyd gan Unbound ddechrau 2024.

Yn 2011 cafodd ei benodi'n CBE a'i ethol yn Gymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr.

Syr William Shawcross CVO

Mae Syr William Shawcross wedi neilltuo cyfran sylweddol o'i fywyd i faes ysgrifennu, gyda ffocws penodol ar bynciau sy'n gysylltiedig â'n brenhiniaeth gyfansoddiadol. Yn 2002, awdurodd "Queen and Country," llyfr a oedd yn ategu ei gyfres deledu ar BBC1, gan wasanaethu fel y cyhoeddiad blaenllaw ar gyfer y Jiwbilí Aur.

Yn 2003, anrhydeddwyd Syr William gyda gwahoddiad caredig Ei diweddar Fawrhydi y Frenhines i ysgrifennu Bywgraffiad Swyddogol y Frenhines Elizabeth, y Fam Frenhines, a gyhoeddwyd wedi hynny yn 2009. Yn 2014, gyda chaniatâd y Frenhines, ymgymerodd â golygu a chyhoeddi detholiad o lythyrau'r Fam Frenhines, dan y teitl "Cyfrif Bendithion Un".

Gan symud i wasanaeth cyhoeddus yn 2012, cymerodd Syr William rôl Cadeirydd y Comisiwn Elusennau, swydd a ddaliodd tan 2018. Wedi hynny, cynhaliodd astudiaeth i'r Ysgrifennydd Tramor, gan ganolbwyntio ar gefnogaeth filwrol ac ariannol gudd y Cyrnol Gaddafi i'r IRA.

Penodwyd Syr William gan yr Ysgrifennydd Cartref i wasanaethu fel Adolygydd Annibynnol rhaglen gwrth-eithafiaeth y Swyddfa Gartref, Prevent, yn 2021. Ar hyn o bryd mae'n dal swydd Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Cyfathrebiadau'r Llywodraeth yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn rolau cyfathrebu ar draws Llywodraeth y DU. Ein nod yw darparu cyfathrebiadau o'r radd flaenaf sy'n cefnogi blaenoriaethau'r llywodraeth, yn gwella bywydau pobl ac yn galluogi ein gwasanaeth cyhoeddus i weithredu'n effeithiol.

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3. Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid perthnasol yr hawlfraint.

communications.gov.uk



UK Government